## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Bandiau Treth a Chyfraddau Treth) (Cymru) 2018 (O.S. 2018/128 (Cy. 32)) ("Rheoliadau 2018") i ddarparu ar gyfer amrywiad dros dro i'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol ar gyfer treth trafodiadau tir sy'n gymwys i drafodiadau eiddo preswyl penodol.

Mae rheoliad 2 yn cymhwyso'r amrywiad dros dro i drafodiadau eiddo preswyl sydd â dyddiad cael effaith ar 27 Gorffennaf 2020 neu ar ôl hynny, ond cyn 1 Ebrill 2021. Pan fo contract wedi ei gyflawni'n sylweddol cyn 1 Ebrill 2021, ond bod y cwblhau yn digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny, ni fydd unrhyw dreth ychwanegol i'w chodi yn rhinwedd adran 10 o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 ("Deddf TTT") ar yr amod mai'r unig reswm y mae treth ychwanegol i'w chodi yw oherwydd bod y cwblhau wedi digwydd ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny.

Mae trafodiad trethadwy yn drafodiad eiddo preswyl os yw o fewn y disgrifiad a geir yn adran 24(6) o'r Ddeddf TTT.

Mae rheoliad 3 yn pennu'r bandiau treth a'r cyfraddau treth canrannol sy'n gymwys i'r trafodiadau hynny a bennir gan reoliad 2.

Mae Rheoliadau 2018 yn parhau i wneud darpariaeth ar gyfer y cyfraddau treth a'r bandiau treth sy'n gymwys i drafodiadau trethadwy—

(a) nad ydynt o fewn y disgrifiad o drafodiad eiddo preswyl, neu

(b) sy'n digwydd cyn 27 Gorffennaf 2020 neu ar 1 Ebrill 2021 neu ar ôl hynny.

Mae'r dreth i'w chyfrifo yn unol ag adrannau 27 ac 28 o'r Ddeddf TTT.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.